*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 350

# Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Gorchmynion Atal Dros Dro Interim) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2021

**Darpariaeth arall ynghylch y weithdrefn i'w gwneud gan y Cyngor**

**18.**—(1) Caiff y Cyngor, fel y gwêl yn addas, wneud unrhyw ddarpariaeth arall o ran y weithdrefn iddo ei dilyn mewn cysylltiad—

(a) â phenderfyniadau i osod neu i beidio â gosod gorchymyn atal dros dro interim,

(b) ag ystyried gosod gorchymyn atal dros dro interim, neu

(c) ag adolygu, estyn a dirymu gorchymyn atal dros dro interim.

(2) Caiff y Cyngor ddiwygio o bryd i'w gilydd unrhyw reolau gweithredu a wneir yn unol â'r erthygl hon.